

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanedi
a gynhaliwyd ar nos Fercher, Mehefin 27^{ain}, 2017
yn Neuadd Gymunedol Tycroes

Cofnod rhif 1 – Aelodau'n Bresennol

Cynghorwyr:
Mike Nicholas
Sharon Lyle
Gareth B Thomas
Berrian Davies
Buddug Thomas
Bob Roberts
Tina Higgins
Malcolm Davies
J Lyn Griffiths

Y Cadeirydd, y Cynghorydd M Nicholas, oedd yn llywyddu ar y cyfarfod
--

Cofnod rhif 2 - Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddiwrth y Cynghorwyr Calum Higgins, Stuart Evans, Byron Evans, Alan Evans, Cellan Davies, Alan Blackley ac Ian Davies.

Cofnod rhif 3 – Datganiadau o Fuddiant

Nid oedd unrhyw Aelod wedi datgan buddiant yn y materion ar yr agenda.

Cofnod rhif 4 – Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi mynychu Carnifal Pontarddulais a'r Hendy ac wedi cymryd rhan wrth feirniadu'r ffenestri addurnedig yn y gymuned, a beirniadu rhai o'r cystadleuthau.

Cofnod rhif 5 – Newid Dyddiad y Cyfarfod

Dywedodd y Clerc ei fod wedi derbyn gwahoddiad i fod yn aelod o weithgor Llywodraeth Cymru i drafod cynlluniau i ad-drefnu llywodraeth leol. Yn anffodus, cynhelir un o'r cyfarfodydd arfaethedig ar yr un diwrnod â chyfarfod nesaf y Cyngor. **Penderfynwyd** felly i gynnal cyfarfod nesaf y Cyngor ar ddydd Iau, Gorffennaf 6^{ed} yn hytrach nag ar ddydd Mercher, Gorffennaf 5^{ed}.

Cofnod rhif 6 – Cais i'r Gronfa Arian a Dargedir

Cafwyd diweddariad gan y Clerc ar gais a gyflwynwyd am arian i'n helpu i gyflogi Swyddog Datblygu Cymunedol. Nodwyd hyn.

Cofnod rhif 7 – Adrian Rowlands

Croesawodd y Cyngor y Pensaer penodedig ar gyfer Clwb Criced yr Hendy, a oedd wedi'i wahodd i annerch y Cyngor ynghlyn â datblygiad y cynllun ar gyfer yr eiddo. Cyflwynodd y Pensaer 3 cynllun opsiwn i'w hystyried gan y Cyngor, ac roedd y rhain yn amrywio mewn maint llawr, gyda chostau cysylltiedig yn amrywio rhwng £760,000 ac £1,051,000.00. Bu trafodaeth fanwl ymysg y cynghorwyr, yn benodol ynglyn â'r ffynonellau ariannu tebygol sydd o bosib ar gael i ariannu'r cynllun, ac y gost i'r Cyngor o fenthg arian i ariannu unrhyw ddiffyg yn yr arian grant.

Cytunwyd bod angen datblygu cynllun busnes cyn gynted â phosib er mwyn arfarnu addasrwydd y 3 opsiwn ac hyfywedd unrhyw lefel o fenthg arian a fydd ei angen. Bydd rhaid i hyn gyd-fynd ag argaeledd unrhyw gymorth grant y gall y Cyngor wneud cais amdano.

Cytunodd y Pensaer i archwilio opsiynau ariannu a allai fod ar gael ar gyfer y cynnyrch amgylcheddol a gynllunir y y strwythur.

Penderfynwyd cyfeirio unrhyw ystyriaeth pellach o'r mater hwn i gyfarfod ward yr Hendy a gynhelir ddydd Mercher nesaf, ac i ystyried y mater yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

Cofnod rhif 8 – Adroddiad yr Archwilydd Mewnol

Roedd yr Aelodau wedi derbyn llythyr ac adroddiad oddiwrth yr Archwilydd Mewnol, Mr Lyn Llewelyn. Penderfynwyd nodi'r adroddiad fel y derbyniwyd oddiwrth yr Archwilydd Mewnol, gan ei fod yn amlinellu bod yr holl brofion rhagnodedig parthed â'r systemau rheoli mewnol wedi'u cwblhau yn foddhaol ac, o ganlyniad, nid oes angen dod ag unrhyw fater at sylw'r Cyngor. Hefyd **penderfynwyd** bod y Cyngor yn cynnig ei ddiolch i'r Clerc am ei waith o sicrhau archwiliad llwyddiannus.

Cofnod rhif 9 – Cyfrifon 2016-17

Dywedodd y Clerc ei fod, yn y cyfarfod blaenorol, wedi darparu trosolwg manwl o'r cyfrifon am y flwyddyn ariannol 2016-17, gan gynnwys yr adroddiadau canlynol:

Datganiad Cysoniad Banc

Atodlen o'r Cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi

Mantolen Brawf

Cyfrif Incwm a Gwariant

Mantolen

Datganiad Blynyddol

Adroddiad manwl ar Incwm a Gwariant

Cofrestr Asedau Sefydlog

Adroddiad Cyfriflyfr Enwol

Gofynnodd y Clerc a oedd gan yr Aelodau unrhyw gwestiwn ynghlyn â'r cofnodion, a **phenderfynwyd** cymeradwyo'r cyfrifon am y flwyddyn ariannol 2016-17, ynghyd â'r Datganiad Blynyddol.

Cofnod rhif 10 – Datganiad Blynyddol

Penderfynwyd awdurdodi'r Cadeirydd i arwyddo'r Datganiad Blynyddol ar ran y Cyngor, ac i'r Clerc anfon y dogfennau at yr Archwilydd Allanol.

Cofnod rhif 11 – Parc yr Hendy – Mainc Goffa

Roedd y Cyngor wedi ystyried cais a dderbyniwyd i osod mainc goffa ym Mharc yr Hendy. **Penderfynwyd** cymeradwyo'r cais hwn.

Daeth busnes y Cyngor i ben am 8.00 yh.

Llofnod Dyddiad
Cadeirydd